**Atodiad 1 - Rhaglen Waith Cyflawni'r Agenda Drawsnewid (DTG) 2021-22: Effaith y Pandemig Coronafeirws ar Wasanaethau Dydd, Gofal Seibiant a Lleoliadau Arhosiad Byr**

Gofynnodd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid ar gyfer 2021/22, bod ADSS Cymru yn cynnal ymarfer monitro i asesu effaith y pandemig ar seibiannau byr, gwasanaethau gofal seibiant a gwasanaethau dydd.

Gellir cyrchu'r adroddiad llawn yma a'r fersiwn Hawdd ei Deall yma.

**Canfyddiadau allweddol:**

**Effaith y pandemig**

*Canfyddiad allweddol 1*
Arweiniodd y pandemig at darfu difrifol ar wasanaethau .

*Canfyddiad allweddol 2*
Cafodd y pandemig effaith negyddol ddifrifol ar les, iechyd corfforol ac iechyd meddyliol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr di-dâl a'r staff sy'n darparu gwasanaethau.

*Canfyddiad allweddol 3*
Mae ymateb y gwasanaeth wedi cael effaith ar lais llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a faint o ddewis sydd ar gael iddynt oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl ac wrth baratoi i ailagor yn llawn.

*Canfyddiad allweddol 4*
Mae pryder y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a phryder eu teuluoedd wedi bod yn sylweddol ac wedi cael effaith negyddol ar eu defnydd o wasanaethau, gan waethygu anawsterau sy'n bodoli eisoes.

*Canfyddiad allweddol 5*
Mae canlyniadau'r pandemig ynghyd ag effaith diffyg cefnogaeth gymdeithasol gan deulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth cymdeithasol eraill, ynghyd â diffyg llythrennedd ac offer TG wedi ehangu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes ymhlith rhai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd a gofal seibiant.

*Canfyddiad allweddol 6*
Mae tarfu a chau gwasanaethau wedi effeithio ar wasanaethau sy'n peryglu cynaliadwyedd rhai gwasanaethau yn fawr.

*Canfyddiad allweddol 7*
Mae rhai effeithiau cadarnhaol ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau wedi'u nodi, o ganlyniad i newidiadau ac arloesi o fewn gwasanaethau.

**Camau a gymerwyd i liniaru effaith y pandemig**

*Canfyddiad allweddol 8*
Gorfodwyd gwasanaethau i ad-drefnu mewn ymateb i'r pandemig, gan addasu ac arloesi i barhau i gynnig cefnogaeth er gwaethaf cyfyngiadau.

*Canfyddiad allweddol 9*
Arweiniodd llai o gapasiti gwasanaeth at asesiad risg y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gan alluogi targedu adnoddau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

*Canfyddiad allweddol 10*
Roedd arfer arloesol a'r defnydd o dechnoleg yn lliniaru effaith y pandemig i raddau ar gyfer rhai grwpiau cleientiaid.

*Canfyddiad allweddol 11*
Diwygiodd llawer o wasanaethau ledled Cymru eu cynnig i ddiwallu anghenion unigol .

*Canfyddiad allweddol 12*
Mae gwasanaethau ar draws Cymru wedi adrodd bod ymdrechion i gynnal gwasanaethau wedi cael eu cynorthwyo gan hyblygrwydd staff a'u gwydnwch.

*Canfyddiad allweddol 13*
Mae'r pandemig wedi gofyn am lefelau uwch o gyfathrebu, mae'r rhain wedi bod yn fuddiol.

*Canfyddiad allweddol 14*
Roedd gwasanaethau yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsant gan amrywiaeth o sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, y cyrff arolygiaeth, gwasanaethau'r trydydd sector, y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

**Rhwystrau i liniaru**
*Canfyddiad allweddol 15*
Awgrymodd canfyddiadau o'n holiaduron darparwyr gwasanaeth/comisiynwyr a grwpiau ffocws dilynol gyda chynrychiolwyr y gweithlu fod cyfyngiadau logistaidd fel addasrwydd adeiladau ac argaeledd TG wedi cyfyngu ar allu darparwyr gwasanaethau i gynnig gwasanaethau.

**"Edrych ar y Sefyllfa"**
*Canfyddiad allweddol 16*
Mae llawer o wasanaethau wedi dechrau adolygu'r newidiadau a wnaed a datblygiadau arloesol a gyflwynwyd i liniaru effaith y
pandemig.

*Canfyddiad allweddol 17*
Mae gwasanaethau wedi, ac yn parhau i, wynebu heriau wrth ailagor ac adfer darpariaeth gwasanaethau i lefelau cyn y pandemig .

*Canfyddiad allweddol 18*
Mae'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd teulu, gofalwyr di-dâl a rolau cymorth cymheiriaid wedi'i wella yn ystod y pandemig.

*Canfyddiad allweddol 19*
Mae'r gydnabyddiaeth o werth critigol gofal seibiant wrth gynnal sefyllfaoedd gofalu wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i gau neu leihau argaeledd y gwasanaethau hyn.

**Atodiad II – Cais Galw am Dystiolaeth**

| Rhaglen Waith Grant Cyflawni'r Agenda Drawsnewid – 2022/23<br><br>Ailystyried cyfleoedd dydd a gofal seibiant – Galw am Dystiolaeth | Delivering Transformation Grant Work Programme – 2022/23<br><br>Day opportunities and respite care re-visit – Call for Evidence |
|---|---|
| Mae Cyfarwyddiaeth Integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ADSS Cymru (CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU), fel rhan o Grant Cyflawni Agenda Drawsnewid 22/23, ailystyried darn o waith a gafodd ei gwblhau yn 2021 i gyflwyno diweddariad am y sefyllfa bresennol o ran y ffordd y mae Awdurdodau Lleol (ALl) yn darparu cyfleoedd dydd statudol a gwasanaethau gofal seibiant. Bydd y prosiect hwn yn mynd rhagddo tan fis Mawrth 2023.<br><br>Yn rhan o'r prosiect, byddwn yn ystyried y canlynol:<br><br>• Yr hyn mae Comisiynwyr a darparwyr wedi'i wneud i ailgychwyn gwasanaethau yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig<br><br>• Deall a fu'n rhaid addasu'r gwasanaethau seibiant a ddarparwyd o ganlyniad i Covid19<br><br>• A gollwyd gwasanaethau yn ystod, ac oherwydd effaith y pandemig, neu faterion eraill fel yr argyfwng ynni/pwysau ar weithluoedd<br><br>• Deall a fu comisiynwyr a darparwyr yn ystyried sut y gellir rhannu gwasanaethau ar draws ffiniau<br><br>• Deall sut mae comisiynwyr a darparwyr yn cyfathrebu gyda phobl sy'n cael mynediad at wasanaethau, eu teuluoedd, a Gofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu<br><br>• Deall a gynhaliwyd adolygiadau gyda dinasyddion, neu a ydynt yn mynd rhagddynt, ac a yw'r adolygiadau hyn yn addas i'r diben<br>• Deall sut mae gwasanaethau rhithwir yn dod yn rhan o'r hyn a gynigir ar draws cyfleoedd dydd a gofal seibiant, ac a oes awydd i rai mathau o wasanaethau rhithwir gael eu darparu'n genedlaethol | The Welsh Government's Social Services Integration Directorate has requested that, as part of the Delivering Transformation Grant for 22/23, ADSS Cymru (ASSOCIATION OF DIRECTORS OF SOCIAL SERVICES Cymru) revisit a piece of work undertaken in 2021 to provide an update on the current position regarding Local Authorities (LA) delivery of statutory day opportunities and respite care services. This project will run until March 2023.<br><br>As part of the project, we will be considering the following:<br><br>• What Commissioners and providers have done to re-open services back to pre-pandemic levels<br><br>• To understand if the delivery of respite services has had to be adjusted as a result of Covid19<br><br>• Have services been lost during, and because of the impact of the pandemic, or other issues such as the energy crisis/workforce pressures<br><br>• To understand if commissioners and providers are considering how services can be shared across boarders<br><br>• To understand how commissioners and providers are communicating with people accessing services, their families, and unpaid Carers to ensure that their needs are being met<br><br>• To understand if reviews are, or have been, undertaken with citizens and whether these reviews are fit for purpose<br><br>To understand how virtual services are becoming part of the offer across day opportunities and respite care, and whether there is appetite for certain types of virtual services to be delivered nationally |

| | |
|---|---|
| • Deall sut mae arloesi yn cael ei gymhwyso a'i ledaenu<br><br>• Deall beth y gallai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i gefnogi newid ac arloesi<br><br>• Deall pa gamau byr/canolig a hirdymor sydd eu hangen gan yr holl randdeiliaid i wella cyfleoedd dydd a gofal seibiant | • To understand how innovation is being scaled and spread<br><br>• To understand what Welsh Government could be doing to support change and innovation<br><br>• To understand what short/medium- and long-term actions are required by all stakeholders to improve day opportunities and respite care |
| **Bydd Cwmpas yr Adolygiad yn cynnwys:** | **The Scope of the Review will cover:** |
| ○ Cyfleoedd dydd a /neu wasanaethau preswyl seibiant a gomisiynir neu a ddarperir yn uniongyrchol gan yr ALl<br><br>○ Cyfleoedd dydd a /neu wasanaethau preswyl seibiant a gomisiynir neu a ddarperir yn uniongyrchol gan yr ALl/GIG | ○ LA commissioned or directly provided statutory day opportunities and/or respite residential services<br><br>○ Joint LA/NHS commissioned or directly provided statutory day opportunities and/or respite residential services |
| **Bydd y gwaith yn ystyried y gwasanaethau hyn ar gyfer y grwpiau o bobl a ganlyn:** | **The work will consider these services for the following groups of people:** |
| ▪ Pobl Hŷn<br>▪ Gofalwyr Di-dâl<br>▪ Pobl ag anableddau dysgu<br>▪ Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd)<br>▪ Pobl ag awtistiaeth / cyflyrau niwroddatblygiadol<br>▪ Plant ag anghenion cymhleth | ▪ Older people<br>▪ Unpaid Carers<br>▪ People with learning disabilities<br>▪ Disabled people (physical and sensory disabilities)<br>▪ People with autism / neurodevelopmental conditions<br>▪ Children with complex needs |
| **Bydd Canlyniad y gwaith hwn yn arwain at lunio adroddiad cenedlaethol fydd yn amlinellu:** | **The Outcome of this work will result in the production of a national report that will outline:** |
| • heriau allweddol<br>• dysgu allweddol<br>• datblygiadau arloesol sy'n deilwng o gael eu lledaenu ar gyfer dysgu ehangach<br>• argymhellion i'w hystyried gan ALl, swyddogion a Gweinidogion LlC a rhanddeiliaid perthnasol eraill i lywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau | • key challenges<br>• key learning<br>• innovations worthy of dissemination for wider learning<br>• recommendations for consideration by LAs, WG officials and Ministers and other relevant stakeholders to inform the transformation of services |
| **I lywio'r prosiect hwn, rydym yn galw am dystiolaeth o'r wybodaeth ganlynol gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol:** | **To inform this project, we are undertaking a call for evidence for the following information from Local Authorities and key stakeholder organisations:** |
| 1. Unrhyw adolygiadau a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd am wasanaethau dydd a/neu wasanaethau seibiant a wnaed gan awdurdodau lleol neu sefydliadau sy'n ddarparwyr, ers Gorffennaf 2021 | 1. Any published service reviews of day opportunities and or respite services undertaken by Local authorities or provider organisations since July 2021<br><br>2. Any published reports by relevant Stakeholder organisations that provide |

| | |
|---|---|
| 2. Unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd gan sefydliadau perthnasol sy'n rhanddeiliaid ac sy'n darparu tystiolaeth sy'n dangos sut mae cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant wedi gwella, neu heb wella ers Gorffennaf 2021<br><br>3. Unrhyw enghreifftiau o ymarfer positif sy'n helpu i drawsnewid cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant | evidence of how day opportunities and respite care services have, or have not, recovered since July 2021<br><br>3. Any examples of positive practice that are helping to transform day opportunities and respite care services |
| **Fel rhan o'r prosiect hwn, ein gobaith yw ailystyried rhai o'r gwasanaethau hyn ledled Cymru, felly rhowch wybod i ni a fyddai ymweliad gan ein tîm yn bosibl, a byddwn yn gwneud ein gorau glas i fod yn bresennol, yn dibynnu ar ddiddordeb, amserlenni ac adnoddau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch louise.sweeney@adss.cymu.**<br><br>Dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau o bobl a ganlyn:<br><br>▪ Pobl Hŷn<br>▪ Gofalwyr Di-dâl<br>▪ Pobl ag anableddau dysgu<br>▪ Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd)<br>▪ Pobl ag awtistiaeth / cyflyrau niwroddatblygiadol<br>▪ Plant ag anghenion cymhleth | **As part of this project, we hope to visit some of these services across Wales, so please let us know if a visit from our team might be possible and we will do our best to attend, depending on interest, timescales and resources. For more information contact louise.sweeney@adss.cymru**<br><br>The evidence should focus specifically on the following groups of people:<br><br>▪ Older people<br>▪ Unpaid Carers<br>▪ People with learning disabilities<br>▪ Disabled people (physical and sensory disabilities)<br>▪ People with autism / neurodevelopmental conditions<br>▪ Children with complex needs |
| A fyddai modd anfon yr holl wybodaeth at paul.pavia@adss.cymru erbyn 21 Tachwedd.<br><br>Hoffem edrych ar dystiolaeth o bob rhan o'r sector, felly rhannwch gyda'ch rhwydweithiau.<br><br>Os hoffech wybod mwy am y prosiect a sut y gallwch gyfrannu, cysylltwch â:<br><br>Phill Chick phill.chick@adss.cymru neu Sarah Day sarah.day@adss.cymru.<br><br>**Tîm y Prosiect**<br>Arweinydd y Prosiect - Phill Chick<br>Tîm Ymchwil – Sarah Day and Paul Pavia | Please can all information be sent to paul.pavia@adss.cymru by November 21st.<br><br>We would like to look at evidence from across the sector, so please share with your networks.<br><br>If you want to find out more about the project and how you can contribute, please contact:<br><br>Phill Chick phill.chick@adss.cymru or Sarah Day sarah.day@adss.cymru.<br><br>**Project team**<br>Project Lead - Phill Chick<br>Research Team – Sarah Day and Paul Pavia |

**Atodiad III – Cais arolwg i Gomisiynwyr**

**Darparu Rhaglen Waith Grant yr Agenda Drawsnewid – cyfleoedd dydd 2022/23, seibiannau gofal preswyl, a gwasanaethau seibiant byr**

Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol ynghylch darpariaeth awdurdodau lleol o gyfleoedd dydd a gofal seibiant / gwasanaethau seibiant byr, byddwn yn casglu data gan dimau comisiynu o bob awdurdod lleol trwy ddau arolwg electronig.
Dylai pob arolwg gymryd tua 40 munud i'w gwblhau, a hoffem ddiolch i bawb am eu cymorth drwy gymryd rhan yn y gwaith hwn.

Bydd y ddau arolwg yn ystyried data ar gyfer y grwpiau gwasanaeth canlynol:

- Pobl hŷn
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd )
- Pobl ag awtistiaeth / cyflyrau niwroddatblygiadol
- Plant ag anghenion cymhleth

Mae arolwg un yn canolbwyntio ar gasglu data meintiol mewn perthynas â'r holl wasanaethau a restrir uchod.

Dyma'r ddolen i'r arolwg hwn dolen Survey Monkey yma (arolwg isod)

Mae'r ail arolwg yn canolbwyntio ar gasglu'r wybodaeth ansoddol ynghylch pob gwasanaeth a restrir uchod.
Gellir rhannu dolen yr arolwg hon gyda chydweithwyr perthnasol i'w gwblhau.

Dyma'r ddolen i'r arolwg hwn dolen Survey Monkey yma (arolwg isod)

### Pwy ddylai gwblhau'r arolwg?
Dylai'r arolwg gael ei gwblhau gan reolwr comisiynu neu swyddog perthnasol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ar gyfer pob grŵp gwasanaeth a restrir uchod.
Bydd pob arolwg sy’n cael ei gyflwyno yn gofyn i'r defnyddiwr nodi pa grŵp defnyddwyr a lleoliad daearyddol mae'r data'n ymwneud ag ef.

### A fydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg?
Bydd, fe fydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Ar gyfer beth fydd y data'n cael ei ddefnyddio ?
Bydd y data sy’n cael ei gasglu yn ein helpu i ddeall y diweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran darparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant / seibiant byr.

### Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer yr arolwg?
Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r arolwg ar gyfer pob grŵp arolwg erbyn **5pm ar 6 Ionawr 2023.**

### Beth sy’n digwydd nesaf?
Byddwn yn cynnal sesiwn briffio ar 20 Rhagfyr am 2pm i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ar sut i gwblhau'r arolwg. I ymuno â'r sesiwn friffio hon, Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod
Bydd y sesiwn hon yn cael ei recordio ar gyfer y rhai na allant fod yn bresennol.

**Ar Chwefror 9 byddwn** yn cynnal **digwyddiad rhithwir undydd** gydag amrywiaeth o randdeiliaid wedi’u gwahodd i wneud y canlynol:

- Rhannu enghreifftiau o arfer da ar gyfer pob math o gyfleoedd dydd a gofal seibiant i oedolion a phlant ag anghenion cymhleth
- Rhannu canfyddiadau ein hadolygiad
- Trafod ar y cyd pa newidiadau cynaliadwy sydd wedi'u gwneud a pha gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i symud y gwaith o drawsnewid cyfleoedd dydd a gofal seibiant, ar ôl y pandemig.

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 27 Chwefror a 6 Mawrth, byddwn hefyd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws gyda chomisiynwyr a darparwyr o bob rhan o'r grwpiau gwasanaeth sy'n cael eu hystyried yn y prosiect hwn.

**Rhowch wybod i mi os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad rhithwir ar 9 Chwefror, neu'r grwpiau ffocws.**

### Beth sydd angen i mi ei wneud os oes gen i fwy o gwestiynau am y prosiect?

Os oes gennych chi gwestiynau pellach, anfonwch y rhain ataf i, louise.sweeney@adss.cymru a byddaf yn eu trosglwyddo i dîm y prosiect.

**Arolwg meintiol ar effaith barhaus Pandemig COVID-19 ar gyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl a gwasanaethau seibiant byr i Gomisiynwyr**

**Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru yn cynrychioli llais pob un o'r un ar hugain o gyfarwyddwyr, arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru** . Rydym ni'n gweithio i lywio a dylanwadu ar sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu a'u gwella.

Mae'r arolwg hwn wedi'i gynllunio i gynyddu ein dealltwriaeth o niferoedd ac ystod cyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl, a gwasanaethau seibiant byr rydych chi'n eu comisiynu. Bydd y wybodaeth hon yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol i ni o'r lefel bresennol o wasanaethau a ddarperir ledled Cymru.

Diolch am gymryd yr amser i ymateb. Rhowch gymaint o ddata rhifiadol â phosibl. Bydd y wybodaeth yn ein helpu i hysbysu Llywodraeth Cymru o effaith barhaus y pandemig ar y gwasanaethau rydych chi'n eu comisiynu ac ar fywydau'r bobl rydych chi'n eu gwasanaethu.

Rhowch Ardal yr Awdurdod Lleol mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â hi:

## Gwasanaethau gweithgareddau dydd

| Grwpiau Cleientiaid | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pobl hŷn | | Gofalwyr di-dâl | | Pobl ag anableddau dysgu | | Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd) | | Pobl ag awtistiaeth / niwroamrywiaeth | | Plant ag anghenion cymhleth | |
| | | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid |
| **Gwasanaethau a gomisiynwyd** | | | | | | | | | | | | | |
| ***Nodyn*** *Rhowch y Nifer o adeiladau ac os ydych chi'n gwybod, nifer y sesiynau yr wythnos. Rhowch + neu - i nodi p'un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Darpariaeth gwasanaeth mewn adeiladau Yn unig | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau | Adeiladau |
| | | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau | Sesiynau |
| *Rhowch yr adeiladau sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol. Rhowch + - i* | Darpariaeth Gymysg - cyfuniad o wasanaethau mewn adeiladau | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *nodi p’un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | a gwasanaethau cymunedol | | | | | | | | | | | | | |
| *Nodwch nifer y Gwasanaethau sy'n gweithredu yn y gymuned ond nad oes ganddynt adeilad ffurfiol. Rhowch + neu - i nodi p’un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Gwasanaeth Cymunedol yn unig | | | | | | | | | | | | | |
| *Nodwch nifer y Gwasanaethau sy’n gweithredu mewn adeilad, yn y gymuned ac ar-lein. Rhowch + neu - i nodi p’un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Gwasanaeth hybrid | | | | | | | | | | | | | |
| *Nodwch nifer y Gwasanaethau sy'n gweithredu ar-lein yn unig. Rhowch + neu - i nodi p’un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Gwasanaeth rhithiol yn unig | | | | | | | | | | | | | |
| *Nodwch nifer y gwasanaethau sy'n cynnig cyflogaeth a dysguRhowch + neu - i nodi p’un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Cyflogaeth a dysgu | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodwch nifer y gwasanaethau sy'n cynnig gwirfoddoli. *Rhowch + neu - i nodi p'un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19* | Gwirfoddoli | | | | | | | | | | | | |

**Gwasanaethau Gofal Seibiant Preswyl a Seibiant** Byr

| **Grwpiau Cleientiaid** | Pobl hŷn | | Gofalwyr di-dâl | | Pobl ag anableddau dysgu | | Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd) | | Pobl ag awtistiaeth / niwroamrywiaeth | | Plant ag anghenion cymhleth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid | Nifer | + neu - ar ôl Covid |
| **Gwasanaethau a gomisiynwyd** | | | | | | | | | | | | |
| **Gofal Seibiant Preswyl** | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | |
| | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | |
| **Brau seibiant** | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | | Unedau | |
| | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | | Gwelyau fesul dydd | |

Nodiadau: *Rhowch arwydd + neu - yn y blwchi nodi p'un a yw'r gwasanaeth hwn wedi ehangu neu leihau ers COVID-19*
Mae unedau'n cyfeirio at nifer yr adeiladau sy'n darparu gwasanaethau ac mae gwely y diwrnod yn cyfeirio at gyfanswm nifer y llefydd gofal seibiant neu seibiant byr sydd ar gael bob dydd.

**Arolwg meintiol ar effaith barhaus Pandemig COVID-19 ar gyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl a gwasanaethau seibiant byr i Gomisiynwyr**

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru yn cynrychioli llais pob un o'r un ar hugain o gyfarwyddwyr, arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru . Rydym ni'n gweithio i lywio a dylanwadu ar sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu a'u gwella.

Dylai'r arolwg hwn gael ei gwblhau gan swyddog comisiynu a all ddarparu data ansoddol am statws cyfleoedd dydd, seibiannau gofal preswyl, a gwasanaethau seibiant byr.

Diolch am gymryd yr amser i ymateb. Cwblhewch y cwestiynau sy'n dilyn, gan roi cymaint o fanylion â phosibl. Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn ein helpu i hysbysu Llywodraeth Cymru o effaith barhaus y pandemig ar y gwasanaethau rydych chi'n eu comisiynu ac ar fywydau'r bobl hynny rydych chi'n eu gwasanaethu.

Rhowch Ardal yr Awdurdod Lleol mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â hi:

1. Pa fath o wasanaeth ydych chi'n ei gomisiynu?

    - Cyfleoedd dydd
    - Gofal Seibiant Preswyl
    - Gwasanaethau Seibiant Byr
    - Arall

2. Rhowch y maes gwasanaeth mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â hi:

    - Pobl Hŷn
    - Gofalwyr di-dâl
    - Pobl ag anableddau dysgu
    - Gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol a synhwyraidd
    - Pobl ag awtistiaeth / niwroamrywiaeth
    - Plant ag anghenion cymhleth

3. Ydy eich awdurdod lleol wedi gwneud newidiadau i'r gwasanaethau rydych chi'n eu comisiynu ? Do/Na

    a. Os felly, beth yw natur y newid i'r fanyleb? Dewiswch pa opsiynau sy'n berthnasol:

        Newid yn lleoliad y ddarpariaeth
        Llai o lefydd wedi'u comisiynu
        Mwy o lefydd wedi'u comisiynu
        Gostyngiad yn nifer y sesiynau sydd ar gael
        Cynnydd yn nifer y sesiynau sydd ar gael
        Newidiadau eraill - nodwch os gwelwch yn dda

4. A oedd y newidiadau i wasanaethau a gomisiynwyd wedi'u cynllunio cyn y pandemig neu a oedden nhw'n ymateb yn llwyr i'r pandemig? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. Os oedd y newidiadau wedi'u cynllunio o'r blaen, a wnaeth y pandemig eich galluogi i gyflwyno newidiadau mwy ac yn gyflymach nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

6. Ydy'r newidiadau wedi parhau mewn grym ers i'r cyfyngiadau gael eu codi? Do/Na

a Os ydyn nhw wedi, a ydych chi'n teimlo eu bod nhw wedi cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar ganlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

7. A oes gennych chi gynlluniau i ddychwelyd i'r fanyleb gwasanaeth cyn y pandemig? Oes/Na

a Os felly, nodwch y tri phrif reswm am hyn?

8. A oes unrhyw bryderon wedi eu codi mewn perthynas â'r newidiadau i wasanaethau a gomisiynwyd ? Oes/Na

a Os felly, beth yw natur y pryder? (Dewiswch unrhyw un o'r opsiynau isod)

Newidiadau i natur y gwasanaeth a ddarperir

Llai o amser ar gael i dreulio amser gyda ffrindiau a chydweithwyr yn y gwasanaeth

Effaith ar allu gofalwyr di-dâl i weithio neu ymdopi â chyfrifoldebau gofalu oherwydd gostyngiad mewn oriau/diwrnodau a ddarperir i ddefnyddiwr y gwasanaeth

Pryderon eraill (nodwch os gwelwch yn dda )

b Ydy'r pryderon hyn wedi'u codi gan? (Dewiswch yr opsiynau isod)

Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau

Teulu neu ffrindiau

Darparwyr gwasanaeth

Eraill, nodwch os gwelwch yn dda

9. Ydy heriau eraill yn effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu?

Ydy/Na

a Os ydy, pa un o'r canlynol sy'n berthnasol?

Prinder gweithlu

Chwyddiant mewn prisiau bwyd

Chwyddiant mewn prisiau tanwydd

Gwasanaethau wedi cau oherwydd y pandemig

Rhesymau Eraill (nodwch os gwelwch yn dda )

10. A oes unrhyw wasanaethau yr hoffech chi dynnu sylw atynt fel rhai sy'n deilwng o ymweliad oherwydd newidiadau ***cadarnhaol*** a wnaed? Oes/Na

Os oes, rhowch fanylion y gwasanaeth: Enw’r gwasanaeth
Cyfeiriad
Rhif ffôn cyswllt neu gyfeiriad e-bost

__Atodiad IV – Cais Arolwg i Ddarparwyr__

**Darparu Rhaglen Waith Grant yr Agenda Drawsnewid – cyfleoedd dydd 2022/23, seibiannau gofal preswyl, a gwasanaethau seibiant byr**

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

**Os gwelwch yn dda rhannwch yr arolwg hwn gyda'r holl ddarparwyr allanol ac mewnol sy'n ymwneud â chyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl, a gwasanaethau seibiant byr**

Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran darparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant / seibiant byr, byddwn yn casglu data gan ddarparwyr y gwasanaethau hyn o bob cwr o Gymru.
Dylai'r arolwg gymryd tua 40 munud i'w gwblhau, a hoffem ddiolch i bawb am eu cymorth drwy gymryd rhan yn y gwaith hwn.

Bydd yr arolwg yn casglu data ar gyfer y grwpiau gwasanaeth canlynol:

- Pobl hŷn
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl anabl (anableddau corfforol a synhwyraidd )
- Pobl ag awtistiaeth / cyflyrau niwroddatblygiadol
- Plant ag anghenion cymhleth

Dyma'r ddolen i'r arolwg dolen Survey Monkey yma (arolwg isod)

### Pwy ddylai gwblhau'r arolwg?

Dylai'r arolwg gael ei gwblhau gan reolwr neu swyddog perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl a gwasanaethau seibiant byr ar gyfer pob grŵp gwasanaeth a restrir uchod. Rydym ni'n cydnabod bod y gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu'n allanol a'u darparu'n fewnol.
Bydd yr arolwg yn gofyn i chi nodi pa grŵp defnyddwyr a lleoliad daearyddol mae'r data'n ymwneud ag ef.

### A fydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg?

Bydd, fe fydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Ar gyfer beth fydd y data'n cael ei ddefnyddio ?

Bydd y data sy'n cael ei gasglu yn ein helpu i ddeall y diweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran darparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant / seibiant byr

### Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer yr arolwg?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r arolwg erbyn **5pm ar 6 Ionawr 2023.**

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cynnal sesiwn briffio ar 20 Rhagfyr am 2pm i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ar sut i gwblhau'r arolwg. I ymuno â'r sesiwn friffio hon, Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod

Bydd y sesiwn hon yn cael ei recordio ar gyfer y rhai na allant fod yn bresennol.

**Ar Chwefror 9 byddwn** yn cynnal **digwyddiad rhithwir undydd** gydag amrywiaeth o randdeiliaid wedi'u gwahodd i wneud y canlynol:

- Rhannu enghreifftiau o arfer da ar gyfer pob math o gyfleoedd dydd a gofal seibiant i oedolion a phlant ag anghenion cymhleth
- Rhannu canfyddiadau ein hadolygiad
- Trafod ar y cyd pa newidiadau cynaliadwy sydd wedi'u gwneud a pha gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i symud y gwaith o drawsnewid cyfleoedd dydd a gofal seibiant, ar ôl y pandemig.

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 27 Chwefror a 6 Mawrth, byddwn hefyd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws gyda chomisiynwyr a darparwyr o bob rhan o'r grwpiau gwasanaeth sy'n cael eu hystyried yn y prosiect hwn.

**Rhowch wybod i mi os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad rhithwir ar 9 Chwefror, neu'r grwpiau ffocws.**

### Beth sydd angen i mi ei wneud os oes gen i fwy o gwestiynau am y prosiect?

Os oes gennych chi gwestiynau pellach, anfonwch y rhain ataf i, louise.sweeney@adss.cymru a byddaf yn eu trosglwyddo i dîm y prosiect.

**Arolwg Darparwyr Gwasanaeth ar effaith barhaus Pandemig COVID-19 ar gyfleoedd dydd, gofal seibiant preswyl a gwasanaethau seibiant byr.**

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru yn cynrychioli llais pob un o'r un ar hugain o gyfarwyddwyr, arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru . Rydym ni'n gweithio i lywio a dylanwadu ar sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu a'u gwella.

Mae'r holiadur hwn wedi'i gynllunio i gynyddu ein dealltwriaeth o'r ystod o weithgareddau dydd, gwasanaethau preswyl a seibiannau byr sy'n cael eu darparu ledled Cymru. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall yr effaith barhaus mae'r pandemig wedi'i chael ar natur, ystod a'r math o wasanaethau rydych chi'n eu darparu.

Dylai'r arolwg hwn gael ei gwblhau gan swyddog a all ddarparu data ansoddol am statws cyfleoedd dydd, seibiannau gofal preswyl, a gwasanaethau seibiant byr rydych chi'n eu darparu.

Diolch am gymryd yr amser i ymateb. Cwblhewch y cwestiynau sy'n dilyn, gan roi cymaint o fanylion â phosibl. Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn ein galluogi i hysbysu Llywodraeth Cymru o effaith barhaus y pandemig ar y gwasanaethau rydych chi'n eu darparu ac ar fywydau'r bobl hynny rydych chi'n eu gwasanaethu.

Rhowch Ardal yr Awdurdod Lleol mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â hi:

1. Pa fath o wasanaeth ydych chi'n ei gomisiynu?

    - Cyfleoedd dydd
    - Gofal Seibiant Preswyl
    - Gwasanaethau Seibiant Byr
    - Arall

2. Rhowch y maes gwasanaeth mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â hi:

    - Pobl Hŷn
    - Gofalwyr di-dâl
    - Pobl ag anableddau dysgu
    - Gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol a synhwyraidd

    a Pobl ag awtistiaeth / niwroamrywiaeth
    b Plant ag anghenion cymhleth

3. Ydy eich sefydliad chi wedi gwneud newidiadau i'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig? Do/Na

    a. Os felly, beth yw natur y newid i'r fanyleb? Dewiswch pa opsiynau sy'n berthnasol:

        Newid yn lleoliad y ddarpariaeth
        Llai o lefydd wedi'u comisiynu
        Mwy o lefydd wedi'u comisiynu
        Gostyngiad yn nifer y sesiynau sydd ar gael
        Cynnydd yn nifer y sesiynau sydd ar gael
        Newidiadau eraill - nodwch os gwelwch yn dda

4. A oedd y newidiadau i'r gwasanaethau rydych chi'n eu darparu wedi'u cynllunio cyn y pandemig neu a oedden nhw'n ymateb yn llwyr i'r pandemig? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. Os oedd y newidiadau wedi'u cynllunio o'r blaen, a wnaeth y pandemig eich galluogi i gyflwyno newidiadau mwy ac yn gyflymach nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

6. Ydy'r newidiadau wedi parhau mewn grym ers i'r cyfyngiadau gael eu codi? Ydy/Na

   a Os ydyn nhw wedi, a ydych chi'n teimlo eu bod nhw wedi cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar ganlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda

7. A oes gennych chi gynlluniau i ddychwelyd i'r fanyleb gwasanaeth cyn y pandemig?

   Oes/Na

   a Os felly, nodwch y tri phrif reswm am hyn?

8. A oes unrhyw bryderon wedi codi mewn perthynas â'r newidiadau a gyflwynwyd? Oes/Na

   a Os felly, beth yw natur y pryder? (Dewiswch unrhyw un o'r opsiynau isod)

      Newidiadau i natur y gwasanaeth a ddarperir

      Llai o amser ar gael i dreulio amser gyda ffrindiau a chydweithwyr yn y gwasanaeth

      Effaith ar allu gofalwyr di-dâl i weithio neu ymdopi â chyfrifoldebau gofalu oherwydd gostyngiad mewn oriau/diwrnodau a ddarperir i ddefnyddiwr y gwasanaeth

      Pryderon eraill (nodwch os gwelwch yn dda )

   b Ydy'r pryderon hyn wedi'u codi gan? (Dewiswch yr opsiynau isod)

      Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau

      Teulu neu ffrindiau

      Eraill, nodwch os gwelwch yn dda

9. Ydy heriau eraill yn effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu?

   Ydy/Na

   a Os ydy, pa un o'r canlynol sy'n berthnasol?

      Prinder gweithlu

      Chwyddiant mewn prisiau bwyd

      Chwyddiant mewn prisiau tanwydd

      Gwasanaethau wedi cau oherwydd y pandemig

      Rhesymau Eraill (nodwch os gwelwch yn dda )

10. A oes unrhyw wasanaethau yr hoffech chi dynnu sylw atynt fel rhai sy'n deilwng o ymweliad oherwydd newidiadau ***cadarnhaol*** a wnaed? Do/Na

    Os oes, rhowch fanylion y gwasanaeth: Enw’r gwasanaeth
    Cyfeiriad
    Rhif ffôn cyswllt neu gyfeiriad e-bost

**Atodiad V – Digwyddiad Cenedlaethol i Ymarferwyr**

**Digwyddiad Rhannu i Randdeiliaid sy'n gweithio i ddarparu cyfleoedd dydd a gwasanaethau gofal seibiant**

**Dydd Iau 09 Chwefror, Ar-lein drwy Zoom**

**RHAGLEN**

| AMSER Y SESIWN | TEITL | Dolen i ymuno |
|---|---|---|
| 10.00 | **Cyflwyniad i'r diwrnod**<br>Y Dirprwy Weinidog Gofal Cymdeithasol, Julie Morgan AC<br><br>Nodyn: Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael drwy gydol y rhaglen | |
| 10.15 | **Trosolwg o'r prosiect a'r canfyddiadau cychwynnol**<br>Pwrpas y diwrnod dan<br>Arweiniad Phil Chick | |
| 10.30 | **Cyflwyniad – Barnardos**<br>Mark Carter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, De-ddwyrain Cymru | |
| 10.50 | **Cyflwyniad – Cyngor Caerdydd**<br>**Nicola Pitman, Rheolwr Arweiniol y Llyfrgell a Strategaeth,** Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd | |
| 11.10 – 11.30 | **Egwyl** | |
| 11.30 | **Cyflwyniad – Mencap**<br>Sian Davies, Pennaeth Effaith a Dysgu, Mencap Cymru | |
| 11.50 | **Cyflwyniad - Karen Davies, Diwydiannau Normanaidd** | |
| 12.10 | **Sesiwn holi ac ateb yn seiliedig ar gyflwyniadau a'r hyn a ddysgwyd o'r bore**<br>Dan arweiniad Phil Chick | |
| 12.30 – 1.30 | **Cinio** | |
| 13.30 | **Cyflwyniad i sesiynau'r prynhawn**<br>Trosolwg ac esboniad Phil<br>Chick a Sarah Day | |
| 13:45 | **Ystafelloedd trafod**<br>Bydd cynrychiolwyr yn cael eu symud i ystafelloedd trafod i drafod cyfres o gwestiynau – i'w harwain gan Phil Chick, Sarah Day a Mark Williams | |
| 14.45 | **Egwyl** | |
| 15.00 | Adborth gan hwyluswyr o fewn grwpiau trafod | |
| 15.30 | **Trosolwg o'r sesiwn ac adborth dan**<br>**Arweiniad Phil Chick** | |
| 15.45 | **Sesiwn yn Cau** | |

**Atodiad VI – Rhestr lawn o'r ymweliadau a gynhaliwyd**

| Math o Wasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|
| Gwasanaethau oedolion<br>Gogledd Cymru | Sgwrs gyffredinol |
| Gwasanaeth dydd (yn bennaf ar gyfer pobl hŷn )<br>De Cymru | Mae'r prosiect yn cynnig nifer o wasanaethau allgymorth i'r gymuned. Mae caffi, neuadd fawr ar gael ar gyfer cynadleddau, man chwarae galw heibio i blant a'u rhieni ynghyd â nifer o wasanaethau eraill a gynigir gan ddarparwyr eraill. Mae rhaglen reolaidd o ymarfer corff a dosbarthiadau cymunedol y gall pobl dalu i'w mynychu. Mae practis meddyg teulu cofrestredig yn yr<br>adeilad hefyd. Felly, mae'r safle yn cynnig nifer o wasanaethau ar gyfer ystod eang o oedrannau o fewn y gymuned. |
| Gwasanaeth Dydd i bobl hŷn – mewnol – Gorllewin Cymru | Mae'n wasanaeth dydd i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned, ond mae'r rheini hefyd mewn byngalo canolraddol i brofi annibyniaeth pobl ac mae wedi'i<br>gysylltu â chartref gofal preswyl sy'n cynnig gofal preswyl a gofal seibiant. |
| Cyfle Dydd Pobl Hŷn /Clwb De-ddwyrain Cymru | Gwasanaeth presennol Gwasanaeth dydd ar gyfer pump o bobl o'r gymuned sydd ag anghenion preswyl 10-4. Mae hyn yn cynnwys bwyd yn yr ystafell fwyta a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal. Mae'r clwb yn cael ei staffio'n unigol. Mae un person yn gyfrifol am 5 person. Mae'r person hwn yn cael ei wisgo mewn dillad arferol, nid dillad gofalwr. Mae'n glwb cymdeithasol gydag ychydig o gefnogaeth. Mae'r cleientiaid hefyd yn cael cyfle i gysylltu â thrigolion y cartref. Mae'r gwasanaeth yn ddwys, yn gyffrous. Maen nhw'n mynd am dripiau, teithiau cerdded.<br>Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda chleientiaid am wybodaeth berthnasol - fel cymorth ariannol/anghenion gofal .<br><br>Maen nhw’n helpu teuluoedd i lywio'r systemau nad ydyn nhw'n eu deall weithiau. Maen nhw'n rhoi sicrwydd. Mae'r rhyddhau i asesu yn enghraifft dda o hyn. Weithiau mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel gwasanaeth cyfryngu rhwng y teulu a'r ysbyty. |
| Prosiect pontio<br>Gorllewin Cymru | Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol a fydd yn cynnwys addysg, darpariaeth a chymorth gofal preswyl, gan gynnwys cyfleoedd dydd. Mae potensial i'r gwasanaeth hefyd gynnig cymorth pontio gofal seibiant yn y dyfodol i fyw'n annibynnol. Mae'r gwasanaeth ar gyfer oedolion 18 a throsodd sy'n symud allan o addysg. |
| Cyfle Dydd Anabledd Dysgu<br>De Cymru | Mae'r prosiect hwn wedi'i leoli yn un o'r Awdurdodau Lleol lleiaf yng Nghymru. Eu gweledigaeth ar gyfer cyfleoedd dydd yw 'galluogi pobl i fyw bywyd da<br>, gan wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw'. Mae ganddyn nhw Dîm Cynllunio Person-Ganolog, sy'n cynnwys 2 Weithiwr Cyswllt Pontio (gweithio<br>gydag unigolion 3 blynedd cyn iddynt adael yr ysgol). Dim ond ychydig o hybiau bach y gall pobl eu defnyddio sydd ganddynt, ond mae llawer o'r gweithgareddau yn digwydd y tu allan i'r mannau hyn. |

| | |
|---|---|
| Prosiect Gofal Seibiant Gofalwyr Canolbarth Cymru | Datblygu dull o gyd-gynhyrchu gofal seibiant person-ganolog, sy'n seiliedig ar gryfder ac yn ystyrlon, yn ogystal ag yn y tymor hwy gyda datblygu strategaethau personol i gynnal lles dros y tymor hwy.<br>Datblygu gwell gwybodaeth a mynediad at asedau lleol a all alluogi a chefnogi gofal seibiant.<br>Rhannu dysgu ymhlith gofalwyr a gwasanaethau i ddylanwadu ar ddulliau o ofal seibiant. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Dydd Anabledd Dysgu – darpariaeth yn y tŷ Gogledd Cymru | Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth mewnol, sy'n gweithredu yn y gymuned. Mae ganddo sylfaen lle mae unigolion yn gallu manteisio ar rannau gwahanol o'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys mynediad i gyrsiau coleg sy'n hyrwyddo byw'n annibynnol, a gweithgareddau thema gwahanol, fel mynd i'r sinema, nofio ac ati. |
| Gwasanaeth cyflogaeth â chymorth – Gorllewin Cymru | Cyflogaeth â chymorth yw'r gwasanaeth, yn bennaf ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu/anhawster ac ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth. Gellir cyrchu'r gwasanaeth ar draws gwahanol safleoedd o fewn y Cyngor. |
| Gwasanaeth dydd Anghenion Cymhleth Anabledd Dysgu – Gogledd Cymru | Mae Hwb Cyfle yn wasanaeth Dydd mewn Canolfan ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth cymhleth ac uchel. Cafodd ei agor fel adeilad newydd yn 2019. |
| Darpariaeth allanol anabledd dysgu – Gogledd Cymru | Darparwr allanol cyfleoedd dydd anabledd dysgu. Maen nhw'n cynnig nifer o gyfleoedd drwy gydol yr wythnos sy'n cynnwys gwaith tir, garddio, pysgota, gweithgareddau ailgylchu sy'n cynnwys uwchgylchu dodrefn, ond hefyd ail-bwrpasu nwyddau domestig, fel peiriannau golchi. Mae'r unigolion sy'n mynychu'r rhaglen yn fyfyrwyr ac yn derbyn hyfforddiant yn y gwaith mewn amrywiol weithgareddau gwahanol fel y cyfeirir atynt uchod. |
| Gwasanaeth Anabledd Dysgu – sefydliad darparwr yn gysylltiedig â Mencap Canolbarth Cymru | Gwasanaeth dydd eithaf bach (hyd at 20 o bobl rwy'n credu) lleol a gwledig, yn y gymuned. |
| Gwasanaeth Anabledd Dysgu – Cyfle dydd a ddarperir i elusen sy'n gysylltiedig â Mencap Gorllewin Cymru | Maen nhw'n fusnes sy'n hunan-ariannu, mae'r cyfranogwyr yn bennaf yn dod o fyw â chymorth. Fodd bynnag, mae eraill sy'n mynychu yn dod o gartref gyda theuluoedd cefnogol.<br>Maen nhw'n mynychu'r Gerddi ar gyfer cymorth dydd .<br>Maen nhw'n gwerthu eu llysiau a'u planhigion eu hunain yn y caffi – mae'r caffi yn gwneud tua £250,000 (gros £160,000).<br>Maen nhw hefyd yn bwriadu plannu gwinllan - mae hyn ar ôl ewyllys . |
| Gwasanaeth Galw Heibio Anabledd Dysgu Gogledd Cymru | Mae'n wasanaeth galw heibio i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr, yn bennaf rhieni plant ac oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaethau wedi'u lleoli ar y Stryd Fawr ac yn gweithredu fel hwb i bobl ymgysylltu â gweithgaredd ystyrlon. |
| Gwasanaeth Cyfleoedd Dydd Anabledd Corfforol – De Cymru | Gwasanaeth i oedolion ag anableddau corfforol sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys crefftau, gemau, gweithgaredd corfforol a gweithdy crefft coed.<br>Roedd llawer o bobl a oedd yn bresennol yn gwella ar ôl strôc a chyflyrau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae'r pwyslais ar gyfranogiad, cysylltedd cymdeithasol ac adferiad corfforol a seicolegol. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Dydd Anabledd Dysgu De Cymru | Gwasanaeth ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Roedd gan y ganolfan gryn dipyn o offer uwch-dechnoleg a oedd yn galluogi'r rhai ag anableddau dwys i gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp. Roedd gan lawer o fynychwyr anghenion corfforol, iechyd a chymdeithasol dwys. Roedd y rhain yn cael eu diwallu yn y gwasanaeth dydd. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth oedolion hŷn De-orllewin Cymru | Gwasanaeth dydd ar gyfer oedolion hŷn sydd wedi'u lleoli'n agos at uned breswyl .<br>Mae'r gwasanaeth dydd wedi datblygu cysylltiadau â'i gymuned leol yn raddol gan weithredu nid yn unig fel canolbwynt i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth ond hefyd i aelodau o'r gymuned leol. Darperir banc dillad a banc bwyd o'r uned sy'n diwallu anghenion y gymuned leol gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n cynnig lle cynnes ac mae'n ymwneud â sefydlu grwpiau sy'n<br>cyfarfod mewn cyfleusterau cymunedol lleol fel neuaddau eglwys a mannau cyhoeddus eraill. |
| Prosiect cyd-gynhyrchu Anabledd Dysgu – De Cymru<br>(Cyfweliad yn unig) | Datblygwyd y prosiect i wella'r defnydd o ddulliau cyd-gynhyrchu wrth ddarparu cymorth i bobl ag anableddau dysgu. |
| Prosiect Cymru Gyfan<br>(cyfweliad yn unig) | Canolbwyntiodd y prosiect ar weithio gyda nifer o deuluoedd sy'n ceisio sefydlu gwasanaethau gweithgareddau dydd ar gyfer aelodau eu teulu trwy gyfuno Taliadau Uniongyrchol. |